| Maes Parcio | Crynodeb sylwadau/ gwrthwynebiadau i'r bwriad o greu Gorchymyn Parcio | Ymateb i'r sylwadau |
|---|---|---|
| **Safle Shell, Caernarfon** | Gan fod y safle hwn eisoes wedi ei chynnwys o fewn y Gorchymyn Parcio cyfredol, nid oedd yn briodol ymgynghori'n statudol eto. O ganlyniad mae trefniadau talu ac arddangos bellach wedi eu cyflwyno ar y safle hwn. | |
| **Dau faes parcio ar Ffordd y Traeth, Bangor** | Sawl sylw yn mynnu mai maes parcio sy'n gwasanaethu ardal benodol Hirael yw'r rhain ac nid canol Dinas Bangor. Os felly, mae llai na 20 o unedau busnes yn yr ardal ac nid yw'n cael ei effeithio gan y tymor gwyliau. O ganlyniad ni ddylid cyflwyno trefniant talu ac arddangos yn y safleoedd hyn. | O ail edrych ar y rhagdybiaethau gwreiddiol ac ail asesu o dan y meini prawf newydd, rhaid cydnabod fod y sylwadau a dderbyniwyd yn synhwyrol. O ganlyniad ni fydd trefniant talu ac arddangos yn cael ei gyflwyno ar y safleoedd hyn ond byddant yn cael eu cynnwys yn y Gorchymyn Parcio newydd er mwyn hwyluso rheolaeth effeithlon o gam ddefnydd. |
| **Cae Star Bethesda** | Bethesda yn ardal ddifreintiedig gydag ychydig o siopa a busnesau. Bydd codi tal am barcio ar y safleoedd dan sylw yn amharu ymhellach ar y busnesau - ergyd farwol i rai ohonynt. Denu pobl ychwanegol i'r ardal yw ein dymuniad - nid eu gyrru oddi yma<br>Pobl leol yn dibynnu ar y m/parcio am le i barcio eu ceir. Nid oes lle ger eu tai – bydd codi tal arnynt am barcio yn annheg ac yn faich ariannol ychwanegol.<br>Mae llawer o waith yn cael ei wneud yn yr ardal i geisio gwella pethau ac ar y stryd fawr yn benodol. Mae partneriaethau yn gweithio'n galed yn yr ardal - bydd codi tal am barcio yn effeithio'n ddrwg ar eu hymdrechion hefyd. Cyflwynwyd gwrthwynebiadau cryf a deiseb gan yr Aelod Lleol gyda dros 300 o enwau arni. | Mae'r amrywiol ffactorau sydd angen ystyriaeth yn y lleoliad yma yn gymhleth ac mae'r trafodaethau yn lleol yn parhau cyn gallu dod i benderfyniad ar gyflwyno trefniant talu ac arddangos ai peidio. Fodd bynnag, mae'r angen i gynnwys y safle yn y Gorchymyn Parcio yn glir. Yn gyson ceir cwynion ar gerbydau wedi eu gadael yn barhaol ar y safle a cham ddefnydd cyffredinol. Bydd cynnwys y lleoliad yn y Gorchymyn Parcio yn galluogi'r Cyngor ddelio gyda phroblemau o'r fath. |
| **Pant Dreiniog Bethesda** | Bethesda yn ardal ddifreintiedig gydag ychydig o siopa a busnesau. Bydd codi tal am barcio ar y safleoedd dan sylw yn amharu ymhellach ar y busnesau - ergyd farwol i rai ohonynt. Denu pobl ychwanegol i'r ardal yw ein dymuniad - nid eu gyrru oddi yma<br>Pobl leol yn dibynnu ar y m/parcio am le i barcio eu ceir. Nid oes lle ger eu tai – bydd codi tal arnynt am barcio yn annheg ac yn faich ariannol | Mae'r amrywiol ffactorau sydd angen ystyriaeth yn y lleoliad yma yn gymhleth ac mae'r trafodaethau yn lleol yn parhau cyn gallu dod i benderfyniad ar gyflwyno trefniant talu ac arddangos ai peidio. Fodd bynnag, mae'r angen i gynnwys y safle yn y Gorchymyn Parcio yn glir. Yn gyson ceir cwynion ar gerbydau wedi eu gadael yn |

| | | |
|---|---|---|
| | ychwanegol.<br>Mae llawer o waith yn cael ei wneud yn yr ardal i geisio gwella pethau ac ar y stryd fawr yn benodol. Mae partneriaethau yn gweithio'n galed yn yr ardal - bydd codi tal am barcio yn effeithio'n ddrwg ar eu hymdrechion hefyd. Cyflwynwyd gwrthwynebiadau cryf a deiseb gan yr Aelod Lleol gyda dros 300 o enwau arni. | barhaol ar y safle a cham ddefnydd cyffredinol. Bydd cynnwys y lleoliad yn y Gorchymyn Parcio yn galluogi'r Cyngor ddelio gyda phroblemau o'r fath. |
| **Ger, Tafarn y Llew Du, Pwllheli** | Cwestiynu faint o arian fydd yn cael ei gynhyrchu ar ôl gwagio'r peiriannau. Angen cadw rhai o'r safleoedd ar gyfer trigolion yr ardal.<br><br>Nifer o wrthwynebiadau ar sail y trefniadau gweithredol ymarferol.<br><br>Y safle yn gwasanaethu trigolion y tai cyfagos ac nid canol y dref. | Yn dilyn derbyn sylwadau ail aseswyd y maes parcio hwn. Credir y dylid ei osod ym mand 4 yn hytrach na band 2 fel y cynnig gwreiddiol. Er bod defnydd yn bennaf gan drigolion tai lleol, mae defnydd gan eraill hefyd. Oherwydd bod preswylwyr angen ei ddefnyddio dros nos argymhellir cyfyngu'r oriau gorfodi i 10.00-16.30 er mwyn i drigolion lleol gael defnydd ohono dros nos.<br><br>Byddwn yn parhau i drafod union fanylder y trefniadau gweithredol gyda'r Cyngor Tref. |
| **Penmount Pwllheli** | Cwestiynu faint o arian fydd yn cael ei gynhyrchu ar ôl gwagio'r peiriannau. Angen cadw rhai o'r safleoedd ar gyfer trigolion yr ardal.<br><br>Nifer o wrthwynebiadau ar sail y trefniadau gweithredol ymarferol.<br><br>Y safle yn gwasanaethu trigolion y tai cyfagos ac nid canol y dref. | Yn dilyn derbyn sylwadau ail aseswyd y maes parcio hwn. Credir y dylid ei osod ym mand 4 yn hytrach na band 2 fel y cynnig gwreiddiol. Er bod defnydd yn bennaf gan drigolion tai lleol, mae defnydd gan eraill hefyd. Oherwydd bod preswylwyr angen ei ddefnyddio dros nos argymhellir cyfyngu'r oriau gorfodi i 10.00-16.30 er mwyn i drigolion lleol gael defnydd ohono dros nos.<br><br>Byddwn yn parhau i drafod union fanylder y trefniadau gweithredol gyda'r Cyngor Tref. |
| **Traeth y De Pwllheli** | Gwrthwynebu'r bwriad i roi peiriannau talu ag arddangos ar y safle. Gan fod pobl leol yn defnyddio'r safle fel man parcio cyfleus. Byddai gosod peiriannau talu am barcio yn creu trafferthion - pobl yn dewis parcio ar y ffordd a chreu problemau traffig ac yn peryglu pobl / teithwyr. Mynd yn | Yn dilyn derbyn sylwadau ail aseswyd y maes parcio hwn. Cytunir mai defnydd gan drigolion lleol sydd yno yn bennaf ac nid yw'n gwasanaethu canol y dref, ond fod y defnydd yn gallu cynyddu yn ystod yr haf. Dylid felly ei |

| | | |
|---|---|---|
| | groes i egwyddor beth gytunwyd yn y nawdegau - safle yw hwn ar gyfer trigolion barcio heb orfod talu ffi parcio. | osod ym mand 4 (ar y sail ei fod yn lleoliad sy'n cael ei effeithio gan y tymor gwyliau) a chyfyngu'r oriau gorfodi i 10.00-16.30 er mwyn i drigolion lleol gael defnydd ohono dros nos. |
| **Cefn Stryd Lombard Porthmadog** | Heriwyd perchnogaeth rhan o'r safle tu ôl i'r Hen Fecws. Cwestiynwyd pam bod angen newid a chodi ffi am barcio, fydd yn creu rhwystrau a thagfeydd wrth barcio ar strydoedd cyhoeddus cyfagos. Llawer o drigolion yn defnyddio'r maes parcio oherwydd cyfyngiadau presennol ar strydoedd lleol. Awgrymwyd yr opsiwn o gael tocynnau parcio i breswylwyr a threfn statws tymhorol i'r maes parcio. | Yn dilyn derbyn sylwadau ail aseswyd y maes parcio hwn. Cytunir mai defnydd gan drigolion lleol sydd yno yn bennaf ac nid yw'n gwasanaethu canol y dref, ond fod y defnydd yn gallu cynyddu yn ystod yr haf. Dylid felly ei osod ym mand 4 (ar y sail ei fod yn lleoliad sy'n cael ei effeithio gan y tymor gwyliau) a chyfyngu'r oriau gorfodi i 10.00-16.30 er mwyn i drigolion lleol gael defnydd ohono dros nos. |
| **Borth y Gest Porthmadog** | Cwestiynu os oes angen newid a chodi ffi am barcio, fydd yn creu rhwystrau a thagfeydd wrth barcio ar strydoedd cyhoeddus cyfagos. Llawer o drigolion yn defnyddio'r maes parcio oherwydd cyfyngiadau presennol ar strydoedd lleol. Awgrymwyd yr opsiwn o gael tocynnau parcio i breswylwyr a threfn statws tymhorol i'r maes parcio. | Derbyn fod y ddadl ynglŷn â phatrymau parcio tymhorol yn synhwyrol ac felly argymhellir cyflwyno trefniant talu ac arddangos ar gyfer tymor y gwyliau yn unig, sef cychwyn Mawrth hyd ddiwedd Hydref. |
| **Cei Bach Porthmadog** | Gan fod y maes parcio Cei Bach yn safle talu am barcio yn barod, nid oedd gwrthwynebiad i'r egwyddor o dalu ac arddangos. Rhai yn awyddus i beidio gweld ffioedd yn codi. | Mae lefel y ffioedd wedi eu sefydlu i sicrhau cysondeb a thecwch ar draws y sir. Argymhellir creu'r Gorchymyn Parcio ar y safle fel a fwriedir yn wreiddiol. |
| **Abereistedd Criccieth** | Gwrthwynebiadau i gyflwyno trefn talu am barcio ar y safle ar sail fod y safle ddim ond yn cael ei ddefnyddio am ychydig wythnosau mewn blwyddyn gan rai sydd yn dymuno cerdded llwybr arfordir a gan ymwelwyr dros nos.<br>Byddai talu am barcio yn cael effaith ar dwristiaeth - llawer o westai yn yr ardal heb le i bobl barcio - hefyd effaith ar economi'r ardal<br>Bydd pobl yn parcio ar y ffordd os bydd trefn talu am barcio ar y safle a bydd hyn yn achosi tagfeydd.<br>Costau gosod a thalu am beiriant parcio a bydd rhaid i f/parcio eraill y Sir roi cymorth i wynebu'r costau.<br>Byddai cyflwyno'r drefn newydd ar gyfer tymor y gwyliau yn fwy synhwyrol ac yn lleddfu cryn dipyn ar y pryderon yn lleol. | Derbyn fod y ddadl ynglŷn â phatrymau parcio tymhorol yn synhwyrol ac felly argymhellir cyflwyno trefniant talu ac arddangos ar gyfer tymor y gwyliau yn unig, sef cychwyn Mawrth hyd ddiwedd Hydref. |

| | | |
|---|---|---|
| **Porth Neigwl** | Yn dilyn trafodaethau yn lleol a gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, mae'n ymddangos nad y Cyngor yw gwir berchennog y tir lle saif y maes parcio yma. O ganlyniad bydd angen hepgor y lleoliad hwn o'r Gorchymyn Parcio Newydd. | |
| **Afonfawr, Penllech** | Gwrthwynebiadau sylweddol i'r bwriad gan bryderu y byddai'n cael effaith negyddol ar yr economi leol, creu rhwystrau a thagfeydd wrth barcio ar strydoedd cul cyhoeddus cyfagos, trafferthion i gerbydau amaeth a gwasanaethau brys, a'r safle yn bell o bobman ac yn wag rhan fwyaf o'r flwyddyn ac eithrio'r haf. Pryder hefyd nad yw'n gynllun cost-effeithiol. | Yn wreiddiol nodwyd fod y maes parcio hwn yn disgyn i fand 4 o dan y meini prawf gan ei fod yn faes parcio sy'n cael ei effeithio gan y tymor gwyliau ac felly'n briodol codi tâl am barcio yno. Yn dilyn ystyried y sylwadau mae amheuaeth bellach os yw hyn yn gywir. Yn sgil hyn, bwriedir oedi am flwyddyn cyn penderfynu os yw'n briodol cyflwyno trefniadau talu ac arddangos er mwyn gallu asesu'r safle eto yn nhymor gwyliau 2016. Yn y cyfamser bydd y safle yn cael ei chynnwys yn y Gorchymyn Parcio newydd fel bod y broses gyfreithiol wedi ei chwblhau pe byddai angen cyflwyno trefniadau talu ac arddangos yn y dyfodol a bydd yn hwyluso rheolaeth effeithlon o gam ddefnydd . |
| **Glan Pwll**<br>**Nefyn** | Derbyniwyd sawl sylw megis:<br>Nifer fawr o bobl leol ac ymwelwyr yn defnyddio'r safle - dim yn cefnogi rhoi peiriant talu ar y safle<br>Effeithio economi'r ardal - pobl ddim yn ymweld â'r pentref<br>Pobl yn dewis parcio ar y ffyrdd cyfagos (rhai cul) ac yn achosi rhwystr i'r gwasanaethau brys<br>Safle chware ger llaw - rhieni yn parcio yn gyson ar y safle. Buasai talu am barcio yn cael effaith andwyol ar y safle<br>Cae pêl droed y pentref ger llaw – pobl yn defnyddio'r ased parcio ar gyfer chwaraeon<br>Cae "pawb" gerllaw – ble mae trigolion am barcio<br>Gwerth am arian – roi peiriant ar y safle a gwaith plismona / cynnal | Yn dilyn derbyn y sylwadau ail aseswyd lleoliad y maes parcio hwn. Ymddengys nad yw'n briodol cynnwys y maes parcio hwn ym mand 4 gan nad oes 20 o unedau masnachol ac nid yw mewn lleoliad sy'n cael ei effeithio gan y tymor gwyliau. O ganlyniad, bydd y maes parcio hwn yn cael ei osod ym mand 5 ac felly ni fydd trefniant talu ac arddangos yn cael ei gyflwyno ond bydd yn cael ei gynnwys yn y Gorchymyn Parcio newydd er mwyn hwyluso rheolaeth effeithlon o gam ddefnydd. |

| | | |
|---|---|---|
| **Y Ddol Nefyn** | Gwrthwynebiad a'r sail:<br>Angen gwario ar y safle ee gwyned y safle yn is raddol, dim baeau parcio.<br>A fydd rhoi peiriant talu am barcio yn gost effeithiol - yn ôl y Cyngor Cymuned - ychydig iawn o bobl sydd yn defnyddio'r safle hyd yn oed yn yr Haf?<br>Peryglon i gerddwyr - llawer yn cerdded drwy'r safle<br>Cerbydau trymion yn defnyddio'r safle yn ddyddiol a threlars.<br>Ychydig o lefydd parcio sydd ar y safle<br>Safle ailgylchu ar y safle | Yn dilyn derbyn y sylwadau ail aseswyd lleoliad y maes parcio hwn. Ymddengys nad yw'n briodol cynnwys y maes parcio hwn ym mand 4 gan nad oes 20 o unedau masnachol ac nid yw mewn lleoliad sy'n cael ei effeithio gan y tymor gwyliau. O ganlyniad, bydd y maes parcio hwn yn cael ei osod ym mand 5 ac felly ni fydd trefniant talu ac arddangos yn cael ei gyflwyno ond bydd yn cael ei gynnwys yn y Gorchymyn Parcio newydd er mwyn hwyluso rheolaeth effeithlon o gam ddefnydd. |
| **Colwyn Banc Beddgelert** | Sylw mai yn dymhorol y defnyddir y maes parcio hwn ac os mai dyma pam y caiff ei gynnwys yn y Gorchymyn yna ni ddylid gorfod talu tu allan i'r tymor gwyliau. | Derbyn fod y ddadl ynglŷn â phatrymau parcio tymhorol yn synhwyrol ac felly argymhellir cyflwyno trefniant talu ac arddangos ar gyfer tymor y gwyliau yn unig, sef cychwyn Mawrth hyd ddiwedd Hydref. |
| **Sgwâr Talbot, Abermaw** | Dim sylwadau i law | Cynnwys yn y Gorchymyn newydd |
| **Neuadd Dyfi Aberdyfi** | Mae'r safle yma ar "les" i Gyngor Cymuned Aberdyfi gan y Cyngor ac mae peiriant talu ag arddangos (preifat) ar y safle yn barod. Mae'r arian a gesglir yn cael ei rheoli /wario gan y Cyngor Tref a'r prosiectau Cymunedol | Argymhellir peidio cynnwys y safle yn y gorchymyn newydd gan adael i'r Cyngor Tref barhau i reoli fel ag y maent ar hyn o bryd. |
| **Hen Westy'r Castell Harlech** | Dim sylwadau wedi eu derbyn. | Cynnwys yn y Gorchymyn newydd |
| **Rhodfa'r Môr Tywyn** | Gwrthwynebiadau sylweddol i'r bwriad gan gael effaith negyddol ar yr economi leol, ymwelwyr, creu rhwystrau a thagfeydd wrth barcio ar strydoedd cyhoeddus cyfagos. Pryder nad yw'n ddarpariaeth gost-effeithiol. Maes parcio yn gwasanaethu'r traeth ydi hwn ac nid maes parcio ar gyfer canol y dref. | Yn dilyn derbyn sylwadau ail aseswyd y maes parcio hwn. Cytunir mai gwasanaethu'r traeth yn bennaf mae hwn ac nid yw'n gwasanaethu canol y dref, a bod y defnydd yn cynyddu yn ystod yr haf. Dylid felly ei osod ym mand 4 (ar y sail ei fod yn lleoliad sy'n cael ei effeithio gan y tymor gwyliau) a chyfyngu'r oriau gorfodi i 10.00-16.30 |
| **Cae Bach, Tywyn** | Yn dilyn trafodaethau yn lleol ymddengys fod perchnogaeth y safle hwn wedi ei throsglwyddo i Gartrefi Cymunedol Gwynedd fel rhan o'r trosglwyddiad stoc tai. O ganlyniad bydd angen hepgor y lleoliad hwn o'r Gorchymyn Parcio Newydd | |

| | | |
|---|---|---|
| **Prif Faes Parcio Penrhyndeudraeth** | Cynhaliwyd cyfarfod Ymgysylltu gyda'r Aelod Lleol ar 25/06/2015. Roedd yr Aelod Lleol yn bryderus fod y broses ymgynghori/ymgysylltu yn digwydd ar ôl penderfyniad y Cyngor, ac yn rhagweld nifer o broblemau gan gynnwys dim cefnogaeth gan y Cyngor Tref na'r gymuned yn ehangach. Nododd yr Aelod Lleol dylai'r Cyngor ail-ystyried y mater.<br><br>Nid ydym wedi llwyddo i gynnal cyfarfod Ymgysylltu gyda'r Cyngor Tref Penrhyndeudraeth, gan eu bod yn gwrthod cyfarfod ar hyn o bryd. Maent yn canfod barn Llywodraeth Cymru gan eu bod o'r farn ein bod yn gweithredu'n anghyfreithlon. | Yn dilyn derbyn sylwadau ail aseswyd y maes parcio hwn. Credir fod y rhesymeg ar gyfer ei osod ym mand 4 yn gywir ar y sail fod dros 20 o unedau masnachol yn y pentref. Fodd bynnag, derbynnir fod preswylwyr angen ei ddefnyddio dros nos ac felly argymhellir cyfyngu'r oriau gorfodi i 10.00-16.30 er mwyn i drigolion lleol gael defnydd ohono dros nos. |
| **Prif Faes Parcio Trawsfynydd** | Gwrthwynebiadau sylweddol i'r bwriad gan gael effaith negyddol ar yr economi leol, ymwelwyr, creu rhwystrau a thagfeydd wrth barcio ar strydoedd cul cyhoeddus cyfagos, parcio ar gyfer y feddygfa gyfagos, a'r safle yn wag rhan fwyaf o'r flwyddyn. Pryder nad yw'n ddarpariaeth gost-effeithiol. | Yn wreiddiol nodwyd fod y maes parcio hwn yn disgyn i fand 4. Yn dilyn trafodaethau yn lleol fe ail aseswyd y safle o dan y meini prawf. Canlyniad hyn oedd penderfynu na ddylai fod wedi ei ddynodi o dan fand 4 yn wreiddiol. O ganlyniad ni fydd trefniant talu ac arddangos yn cael ei gyflwyno ar y safle hwn ond bydd yn cael ei chynnwys yn y Gorchymyn Parcio Newydd er mwyn hwyluso rheolaeth effeithlon o gam ddefnydd. |
| **Meysydd Parcio Swyddfeydd y Cyngor** | **Crynodeb sylwadau/ gwrthwynebiadau i'r bwriad o greu Gorchymyn Parcio** | **Ymateb i'r sylwadau** |
| **Aml Lawr Doc Fictoria Caernarfon** | Dim gwrthwynebiad i'r Gorchymyn | Cynnwys yn y Gorchymyn newydd |
| **Aml Lawr Ffordd Pafiliwn Caernarfon** | Dim gwrthwynebiad i'r Gorchymyn | Cynnwys yn y Gorchymyn newydd |
| **Frondeg Pwllheli** | Dim gwrthwynebiad i'r Gorchymyn | Cynnwys yn y Gorchymyn newydd |
| **Ffordd y Cob Pwllheli** | Dim gwrthwynebiad i'r Gorchymyn | Cynnwys yn y Gorchymyn newydd |
| **Penarlâg** | Dim sylwadau wedi eu derbyn. | Cynnwys yn y Gorchymyn newydd |

| | | |
|---|---|---|
| **Dolgellau** | | |